I Weinidogion Cymru,

**Cyflwyniad Adroddiad Blynyddol: *Castell-nedd Port Talbot (2024-2025)***

Yn unol â'r dyletswyddau a nodir o dan Adrannau 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler Adroddiad Blynyddol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

# 1. Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol

## Map Rhwydwaith Teithio Llesol – Archwilio a Mapio

Mae pob llwybr presennol ac arfaethedig sydd wedi'i gynnwys ym Map Rhwydwaith Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot wedi'i archwilio yn erbyn y safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru i asesu ei addasrwydd ar gyfer cerdded, beicio, neu'r ddau.

Cynhaliwyd ymarfer i ddiweddaru'r data perthnasol ar MapDataCymru, gan sicrhau bod y sgoriau asesu o archwiliadau a gynhaliwyd rhwng 2021 a 2023 yn cael eu hadlewyrchu'n gywir.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi archwilio a mapio cyfleusterau allweddol sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyd llwybrau teithio llesol presennol. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, disgwylir i adolygiad ffurfiol o'r mapiau hyn ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

# Ymgynghoriadau Teithio Llesol / Digwyddiadau Ymgysylltu

**Ymgynghoriad ar Lwybr Teithio Llesol Castell-nedd i Gimla:** Rhwng 23 Medi 2024 a 28 Hydref 2024, cynhaliodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch llwybr teithio llesol arfaethedig rhwng Castell-nedd a Chimla. Roedd y broses ymgynghori'n cynnwys:

- Anfon e-byst at 261 o randdeiliaid
- Ymgysylltu ar-lein drwy wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol
- Datganiad i'r wasg
- Gosod posteri yn yr ardal leol
- Digwyddiad cyhoeddus wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2024, rhwng 2.00pm a 7.00pm, yn Neuadd Clive Roberts (Cwt Sgowtiaid Cimla), SA11 3PF

Derbyniwyd cyfanswm o 224 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r ***Adroddiad Ymgynghori*** llawn ar gael ar wefan y Cyngor.



***Ffigur 1**: Llun o ddigwyddiad wyneb yn wyneb Castell-nedd i Gimla*

**Diwrnod Chwarae Cenedlaethol – Cyfnod Ymgysylltu Teithio Llesol:** I ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol, cynhaliodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei ddigwyddiad blynyddol Diwrnod Hwyl i Deuluoedd. Cymerodd y Tîm Teithio Llesol ran drwy gynnal stondin Teithio Llesol, lle bu swyddogion yn ymgysylltu ag ymwelwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o lwybrau cerdded a beicio lleol. Gwahoddwyd ymwelwyr i gwblhau holiadur er mwyn rhannu eu canfyddiadau am deithio llesol yn eu hardal.

Roedd y digwyddiad yn boblogaidd, a chwblhaodd cyfanswm o 59 o unigolion yr holiadur, gan ddarparu mewnwelediadau gwerthfawr i safbwyntiau'r cyhoedd ar gerdded a beicio ac adnabod meysydd posib i'w gwella.









***Ffigur 2**: **Lluniau o stondin Teithio Llesol yn nigwyddiad Diwrnod Hwyl i Deuluoedd CnPT.*** .

**Digwyddiad 'Lock it, Mark it':** Cymerodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ran yn y digwyddiad 'Lock it, Mark it' mewn cydweithrediad â Thrafnidiaeth Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, a gynhaliwyd yng Ngorsaf Drenau Castell-nedd. Roedd y fenter yn cynnig cyfle i aelodau o'r cyhoedd farcio a chofrestru eu beiciau am ddim ar y Gronfa Ddata Beiciau Genedlaethol, sef system a gynlluniwyd i atal lladrad a chynorthwyo i ddod o hyd i feiciau sydd wedi'u dwyn.




***Ffigur 3**: **Llun o'r stondin wedi'i osod yng Ngorsaf Drenau Castell-nedd***

## Hyrwyddo mewn Ysgolion

Cynhaliodd Tîm Diogelwch Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol, gan gynnwys:

- CycleCraft (Hyfforddiant beicio ar y ffyrdd): 14 ysgol, 291 o ddisgyblion

- Addysg Dosbarth Cynradd: 50 ysgol, 8859 o ddisgyblion
- Ymwybyddiaeth Feicio (Blwyddyn 3 - Blwyddyn 6): 5 ysgol, 66 o ddisgyblion
- Hyfforddiant Sgwteri (pob oedran): 5 ysgol, 145 o ddisgyblion
- Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd (Meithrin a Derbyn): Dim hyfforddiant
- Beicio Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a 2): 2 ysgol, 25 o ddisgyblion
- Teithiau Cerdded Diogelwch Ffyrdd (pob oedran): 13 ysgol, 323 o ddisgyblion
- Kerbcraft (Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded - Blwyddyn 2): 30 ysgol, 758 o ddisgyblion
- The Big Pedal (y mae CNPT yn cefnogi Sustrans): Nid yw'r nifer yn hysbys
- Criw Hanfodol: 53 ysgol, 1610 o ddisgyblion

**Cynllun Beicio i'r Gwaith Gweithwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot :** Rhwng mis Medi 2020 a mis Hydref 2025 bu 894 o geisiadau gan aelodau staff Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gyda chyfanswm o £1,234,374.00.

**Siarter Teithio Iach Bae Abertawe :** Daeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn lofnodwr Siarter Teithio Iach Bae Abertawe ym mis Chwefror 2023. Mae'r llofnodwyr y Siarter wedi ymrwymo i 17 o gamau gweithredu i'w cwblhau dros gyfnod o 2 flynedd. Mae'r camau'n cynnwys sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy ym mhob sefydliad, datblygu ymgyrchoedd cyfathrebu a dargedir ar gyfer staff, cynnig a hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith, mabwysiadu ceir trydan a hyrwyddo gostyngiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Drwy

gydweithio, mae'r llofnodwyr yn anelu i gynyddu'r cyfran o deithiau i weithleoedd cynaliadwy ac oddi yno. Llwyddom i gyrraedd Lefel 1 o Siarter Teithio Iach Bae Abertawe ym mis Ebrill 2025 ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar ein llwyddiant drwy weithio tuag at Lefel 2 yn fuan.

**Cyswllt Mewnol:** Mae cysylltiad parhaus â chydweithwyr o'r adrannau Cynllunio, Priffyrdd, Diogelwch Ffyrdd, Gofal Stryd (cynnal a chadw llwybrau) a Chyfathrebu er mwyn annog hyrwyddo'n gyffredinol a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd.

**Cyswllt Allanol:** Sefydlwyd grŵp beicio cymunedol o'r enw NPT Links yng Nghastell-nedd Port Talbot i gefnogi a hyrwyddo teithio llesol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Tîm Teithio Llesol Cyngor Castell-nedd Port Talbot a chynrychiolwyr o'r grŵp i drafod cyfleoedd i wella llwybrau teithio llesol a chryfhau ymgysylltiad cymunedol.

Yn ogystal, mae Swyddogion Teithio Llesol wedi mynychu cyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol Castell-nedd Port Talbot, lle gwnaethant roi diweddariadau ar fentrau teithio llesol parhaus a chasglu adborth i helpu i wella hygyrchedd ar draws y rhanbarth.

## 2. Camau a Gymerwyd i Sicrhau Llwybrau Teithio Llesol Newydd a Chyfleusterau Cysylltiedig

## Integreiddio Teithio Llesol mewn Datblygiadau Newydd

Mae'n ofynnol i bob cynllun datblygu newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot gynnwys isadeiledd sy'n bodloni safonau dylunio Teithio Llesol. Mae Swyddogion Teithio Llesol y Cyngor yn adolygu ceisiadau cynllunio ar raddfa fawr ac yn darparu adborth manwl i sicrhau cydymffurfiaeth. Lle bo angen, cynhelir cyfarfodydd gyda datblygwyr i drafod cynigion ac archwilio cyfleoedd i ymgorffori egwyddorion teithio llesol.

Disgwylir i bob datblygiad ddarparu isadeiledd teithio llesol ar y safle a/neu oddi ar y safle, a, lle bo'n briodol, darparu cyllid drwy gytundebau Adran 106. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu'n ystyrlon at ehangu a gwella'r rhwydwaith teithio llesol ar draws y fwrdeistref sirol.

## Dyraniad Craidd – Cronfa Teithio Llesol (2024–25)

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, dyfarnwyd £716,000 o gyllid craidd i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i gefnogi datblygu a hyrwyddo mentrau teithio llesol. Darparwyd y cyllid hwn i alluogi gwaith dylunio pellach, mân welliannau, trafodaethau tir, a hyrwyddo cynlluniau.

Cafodd y ffrydiau gwaith canlynol eu cymeradwyo gan LC a Thrafnidiaeth Cymru (TfC) fel rhan o waith datblygu'r cynllun dyraniad craidd.

**Llwybr Teithio Llesol Castell-nedd i Gimla:** Mae'r llwybr presennol rhwng Castell-nedd a Chimla'n anaddas ar gyfer teithio llesol oherwydd traffig, cyflymder a graddiannau serth. Rhaid i feicwyr rannu'r ffordd â cherbydau, gan wneud y daith yn anniogel i lawer o ddefnyddwyr.

Mae llwybr newydd yn cael ei ddylunio sy'n cydymffurfio â safonau Deddf Teithio Llesol, gan wella mynediad i ganol tref Castell-nedd ac ysgolion lleol gan gynnwys Ysgol Gymraeg Castell-nedd, Ysgol Gynradd Crynallt, ac Ysgol Gyfun Cefn Saeson. Mae nodweddion y dyluniad yn cynnwys:

- Ehangu llwybrau troed, gan ganiatáu i bobl gerdded a beicio ar hyd y llwybrau.
- Mannau beicio ar strydoedd tawel ynghyd â llwybrau cerdded oddi ar y ffordd.
- Addasiadau i'r gatiau ym Mhorthdy'r Gnoll.
- Creu adrannau newydd o lwybrau defnydd a rennir.
- Twmpathau uwch ar rai cyffyrdd i gynorthwyo preswylwyr â symudedd cyfyngedig wrth groesi.

Gwnaeth cyllid cychwynnol (2022/23) gefnogi dichonoldeb a dylunio. Gwnaeth cyllid ychwanegol yn 2024/25 alluogi dyluniad manwl, ymgynghoriad cyhoeddus, trafodaethau gyda CADW ynghylch adeiladau rhestredig, a phrosesau cyfreithiol i ddiwygio'r gorchymyn gwahardd beicio yn y Gnoll.

**Prif Gynllun Teithio Llesol Sandfields:** Gan adeiladu ar y gwaith dichonoldeb a gwblhawyd yn 2022/23, mae'r dyluniad cychwynnol a'r achos busnes WelTAG Lite ar gyfer y tri llwybr â'r flaenoriaeth uchaf yn 2023/24 bellach wedi symud ymlaen at y cam dylunio manwl. Pan fydd y llwybrau wedi'u cwblhau, byddant yn darparu cysylltiad cerdded a beicio sy'n mynd o amgylch ardal Sandfields o Seaway Parade, Rhodfa Handell, Rhodfa Purcell, Rhodfa Scarlett, Ffordd y Dywysoges Margaret a Heol Fictoria. Bydd y llwybr siâp pedol yn cysylltu'r glan môr â NCN4 ac 887, gan ddarparu mynediad at gyrchfannau

allweddol. Bydd y llwybr yn cael ei ategu gan welliannau i’r parth cyhoeddus ac i isadeiledd gwyrdd.

**Prif Gynllun Teithio Llesol Canol Tref Castell-nedd:** Gan adeiladu ar y gwaith dichonoldeb a gynhaliwyd yn 2023/24, symudodd y tri llwybr â’r flaenoriaeth uchaf ymlaen at y cam dyluniad cychwynnol a’r achos busnes WelTAG Lite. Roedd y llwybrau hyn yn cynnwys Heol Mynachlog Nedd i Stryd y Bont, Heol Cadoxton i Ffordd Tywysog Cymru a rhan o Heol Parc y Gnoll.


**NCN 4 – Canolfan Addysg Tai-bach, Margam:** Roedd gwelliannau ym maes parcio Canolfan Addysg Gymunedol Tai-bach yn canolbwyntio ar wella diogelwch a hygyrchedd i ddefnyddwyr llwybr beicio NCN4. Roedd y gwaith yn cynnwys tynnu rhwystr mynediad, ehangu’r llwybr i fodloni safonau teithio llesol, a gosod ffens gyda giât mynediad newydd. Gwnaeth y newidiadau hyn ddarparu llwybr cerdded a beicio dynodedig a gwella diogelwch y ganolfan addysg drwy ganiatáu i’r maes parcio gael ei gloi dros nos, â’r nod o leihau ymddygiad

gwrthgymdeithasol a fandaliaeth sydd wedi effeithio ar y safle yn y gorffennol.

**Gwelliannau Goleuo NCN 4:** Ar y darn oddi ar y ffordd o NCN4 ger Pant Celydd, Port Talbot, gosodwyd goleuadau newydd i fynd i'r afael â phryderon diogelwch, yn enwedig wrth dro serth 90-gradd gyda gwelededd gwael. Mae'r goleuadau'n gwneud y llwybr yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch yn ystod y




***Ffigur 4*: Lluniau o Faes Parcio Canolfan Addysg Tai-bach, Margam cyn ac ar ôl y gwelliannau**




nos, yn enwedig yn y gaeaf.

Rhaglen Gwelliannau Ymylon y Palmant Isel a Phalmentydd Botymog: Blaenoriaethwyd saith llwybr yn y dyfodol ar gyfer gosod ymylon y palmant isel a phalmentydd botymog yn 24/25. Gellir gweld y lleoliadau o dan yr adran 'adran y llwybr sydd wedi'i wella' yn yr adroddiad hwn. Mae'r llwybrau hyn wedi'u hailarchwilio a byddant yn cael eu cofnodi fel llwybrau presennol ar MapDataCymru.





*Ffigur 5:* Enghraifft o lun cyn ac ar ôl o ymyl palmant isel/palmant botymog newydd ar Heol Theodore, Port Talbot

**Cysylltiadau Tai-bach i Goytre:** Mae cynnig ar y gweill i wella cyfleusterau cerdded a beicio yn ardal Tai-bach, Port Talbot, gan gysylltu pen Goetre o ardal Bryn i lwybr Goetre ag isadeiledd teithio llesol presennol ym Mhort Talbot. Cynhaliwyd astudiaeth dichonoldeb yn ystod 2023–2024. Dangosodd yr astudiaeth hon y llwybr a ffefrir, a symudodd ymlaen at y cam dyluniad cychwynnol yn 2024–2025. Roedd y mesurau a gynigir ar y cam hwn yn cynnwys:

- Gwelliannau i gyfleusterau i gerddwyr
- Beicio ar y ffordd – stryd dawel (e.e. ystâd Wildbrook)
- Llwybrau defnydd a rennir wrth ymyl y ffordd gerbydau.
- Llwybrau defnydd a rennir i ffwrdd o'r ffordd gerbydau.
- Cyfleusterau croesi gwell ar gyffyrdd.
- Man croesi ffurfiol ar yr A48.

**Cyswllt rhwng yr A48 a NCN47:** Datblygwyd cynnig i archwilio dichonoldeb creu cysylltiad rhwng yr A48 a NCN47 ar hyd Camlas Castell-nedd. Ar hyn o bryd, mae cysylltiad ar goll rhwng y llwybr a rennir ar ochr ogleddol Pont Llansawel (FR-PT-SU111) ac NCN47. Cafodd y llwybr arfaethedig ar gyfer y dyfodol (FR-NEA-SU031) ei archwilio ym mis Chwefror 2022 a chanfuwyd ei fod yn anaddas ar gyfer cerdded a beicio oherwydd materion megis arwyneb gwael, arwyddion cyfyngedig a graddiannau heriol.

**Monitro:** Er mwyn cefnogi cynllunio a gwerthuso sy’n seiliedig ar dystiolaeth, mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gweithredu rhaglen o fonitro traffig a theithio llesol. Cesglir data ar lwybrau detholedig i gofnodi cyflymder a nifer cerbydau, yn ogystal â niferoedd cerddwyr a beicwyr. Mae’r monitro hwn yn helpu i sefydlu data sylfaenol ac yn darparu tystiolaeth barhaus, a gesglir am hyd at dair blynedd ar ôl adeiladu, i ddangos manteision y gwelliannau i isadeiledd teithio llesol.

Er mwyn gwella monitro yn y dyfodol, prynwyd camerâu ychwanegol, gan alluogi casglu data mwy cynhwysfawr a chyson ar draws y rhwydwaith teithio llesol.



***Ffigur 6*: Blwch radar yn cofnodi data cerdded a beicio ar NCN43**

**Datblygu'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol:** Gweler yr adran 'Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol' am ragor o fanylion.

**Cyfleusterau Cysylltiedig:** Gweler yr adran 'Cyfleusterau Teithio Llesol Newydd a Gwell' am ragor o fanylion.

## 3. Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwell, a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol presennol a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol

Yn y flwyddyn ariannol 2024–2025, dyfarnwyd £716,000 o gyllid craidd i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i gefnogi datblygu a gwella isadeiledd teithio llesol. Dyrannwyd y cyllid hwn ar gyfer:

- Gwaith dylunio ar gyfer llwybrau teithio llesol yn y dyfodol
- Mân welliannau i'r isadeiledd presennol
- Trafodaethau tir i hwyluso darparu llwybrau yn y dyfodol
- Hyrwyddo cynlluniau teithio llesol ar draws y rhanbarth

Er na chafodd unrhyw lwybrau newydd eu hadeiladu yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiodd y buddsoddiad ar sicrhau bod llwybrau presennol a llwybrau yn y dyfodol yn bodloni'r safonau a nodir yng Nghanllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gan osod y sylfeini ar gyfer gwelliannau tymor hir i hygyrchedd cerdded a beicio.

## **4.** Gwariant dangosol ar lwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd, a gwelliannau i lwybrau a

## chyfleusterau teithio llesol presennol a ariannwyd neu a rannwyd eu hariannu gan drydydd partïon .

Drwy gydol y flwyddyn ariannol 2024–2025, gwnaeth Swyddogion Teithio Llesol Cyngor Castell-nedd Port Talbot adolygu a rhoi sylwadau ar nifer o geisiadau cynllunio i sicrhau bod y datblygiadau arfaethedig yn cynnwys isadeiledd teithio llesol digonol. Mae'r broses hon yn helpu i ymgorffori ystyriaethau cerdded a beicio yn y system gynllunio ac yn cefnogi datblygu'r rhwydwaith yn y tymor hir.

Er nad yw cyfanswm y cyfraniad ariannol gan ddatblygwyr drwy'r ceisiadau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i eirioli dros gynnwys gwelliannau teithio llesol ar y safle ac oddi ar y safle, weithiau gyda chefnogaeth drwy gytundebau Adran 106.

## 5. Hyd Llwybrau Newydd ar gyfer Cerdded, Beicio a Defnydd a Rennir

Ni chafodd unrhyw lwybrau teithio llesol newydd eu hadeiladu yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y flwyddyn ariannol 2024–2025. Yn hytrach, cyfeiriwyd yr holl gyllid a ddyrannwyd at y canlynol:

- Gwaith dylunio a datblygu ar gyfer llwybrau teithio llesol yn y dyfodol
- Gwelliannau i'r isadeiledd presennol
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol 2013 (Cymru)

Mae’r gweithgareddau paratoi a gwella hyn yn hanfodol i sicrhau bod llwybrau yn y dyfodol yn bodloni’r safonau gofynnol ac yn darparu buddion tymor hir ar gyfer cerdded a beicio ar draws y rhanbarth.

## 6. Hyd y Llwybrau wedi’u Gwella ar gyfer Cerdded, Beicio, a Defnydd a Rennir

Mae’r gwelliannau i ymylon palmant isel/botymog ac i Ganolfan Addysg Tai-bach wedi creu’r hyd canlynol o lwybrau cerdded presennol newydd:

| Llwybr yn y dyfodol (i ddod yn llwybr presennol) | Lleoliad | Hyd(m) |
|---|---|---|
| FR-SKW-W005 | Heol Bosworth, Sgiwen | 84 |
| FR-PT-SU014 | Ffordd Dyffryn, Tai-bach i Heol Tŷ Fry, Margam drwy Heol Margam (A48) | 1576 |
| FR-SKW-SU014 | Parc Wern, Sgiwen | 573 |
| FR-PT-SU011 | Heol Theodore, Port Talbot | 734 |
| FR-PT-W0010 | Commercial Road | 1870 |
| FR-NEA-SU049 | Rhodfa Beechwood, Castell-nedd | 640 |

| Llwybr yn y dyfodol (i ddod yn llwybr presennol) | Lleoliad | Hyd(m) |
|---|---|---|
| FR-PT-P033 | Broad Street i Heol Talbot (A48) Port Talbot | 136 |
| NPT-PT-SU121 | Canolfan Addysg Tai-bach | 125 |
| | **Cyfanswm** | **5,738 o fetrau** |

## 7. Cyfleusterau Teithio Llesol Newydd a Gwell

**Rhwystrau**

Defnyddiwyd y cyllid i gael gwared ar fesurau rheoli mynediad a'u disodli er mwyn sicrhau bod y rhwystrau'n cydymffurfio â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r gwaith hwn wedi parhau'r rhaglen o waith a gynhaliwyd yn y blynyddoedd blaenorol i ddisodli rhwystrau nad ydynt yn cydymffurfio a gwneud ein llwybrau'n fwy hygyrch. Yn 2024/2025 cafodd rhwystrau nad ydynt yn cydymffurfio eu disodli mewn lleoliadau yng Nghanol Tref Castell-nedd i alluogi defnydd gan unigolion o bob gallu.  Ers 2019 rydym wedi dileu/disodli cyfanswm o 59 o rwystrau mynediad yn y fwrdeistref sirol, gan wneud llwybrau'n fwy hygyrch i bawb sy'n dewis cerdded, olwyno neu feicio ar eu hyd.

**Arwyddion**

Yn 2023/24, derbyniodd CnPT ohebiaeth ynghylch arwydd ffordd mawr ger cylchfan Llansawel, lle’r oedd un polyn yn rhwystro’r llwybr, gan orfodi defnyddwyr beiciau a addaswyd i fynd ar y ffordd gerbydau. Defnyddiwyd y cyllid i symud yr arwydd tu ôl i’r llwybr er mwyn ei gadw’n glir. Dechreuodd y gwaith yn 2024/25 gyda’r bwriad o’i gwblhau yn 2025/26.

## 8. Gwybodaeth Ychwanegol (dewisol)

Dd/b.

**Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat neu iaith wahanol, e-bostiwch activetravel@npt.gov.uk**